

## **BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

<b>ADRODDIAD I:</b>	<b><u>CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR</u></b>
<b>PWNC:</b>	<b><u>PWYLLGOR GWASANAETHAU</u></b> <b><u>DEMOCRATAIDD - 7 TACHWEDD 2017</u></b>
<b>ADRODDIAD GAN:</b>	<b><u>UWCH SWYDDOG CYMORTH BUSNES</u></b> <b><u>DEMOCRATAIDD A CHORFFORAETHOL</u></b>

---

PRESENNOL: CYNGHORYDD H. McCARTHY, B.A. (ANRH)  
(CADEIRYDD)

Cynghorwyr P. Baldwin  
J. Collins  
N. Daniels  
J. Holt  
J. Millard  
J. C. Morgan  
J. P. Morgan  
L. Parsons  
B. Summers  
S. Thomas

A: Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig  
Gwasanaethau Democrataidd)  
Pennaeth Gwasanaethau Ariannol  
Rheolwr Cymorth Corfforaethol

HEFYD: **Cadeiryddion a Is-gadeiryddion Craffu**  
Cynghorwyr M. Cook  
L. Elias  
P. Edwards  
H. Trollope

EITEM	PWNC	GWEITHREDU
1.	<p><b><u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u></b></p> <p>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>	
2.	<p><b><u>YMDDIHEURIADAU</u></b></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan:-</p> <p>Cynghorydd K. Hayden</p>	
3.	<p><b><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFBAU</u></b></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant neu oddefebau.</p>	
4.	<p><b><u>PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u></b></p> <p>Ymunodd Cynghorydd L. Parsons â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.</p> <p>Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2017 ar gyfer eu hystyried.</p> <p>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion.</p>	
5.	<p><b><u>ADRODDIAD CYNNYDD TREFNIADAU DEMOCRATAIDD</u></b></p> <p>Rhoddyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democrataidd).</p> <p>Ar wahoddiad y Cadeirydd, dywedodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau</p>	

Democrataidd) y datblygwyd yr adroddiad cynnydd i gynnwys y cynlluniau gweithredu a sefydlwyd yn cynnwys cymorth craffu a datblygu Aelodau ynghyd ag adran newydd yng nghyswllt y broses ddemocrataidd. Drwy integreiddio cynnydd ar y cynlluniau hyn mewn un adroddiad, cydnabuwyd y byddai Aelodau yn cael darlun llawnach o berfformiad yng nghyswllt y trefniadau democrataidd.

Roedd arddull yr adroddiad a'r fformat a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r adroddiad yn gyson gyda'r arddull a'r fformat a ddefnyddiwyd i gyflwyno gwybodaeth perfformiad arall i'r broses ddemocrataidd.

Bydd gwaith yn parhau gyda'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd i barhau i ddatblygu'r adroddiad cynnydd i gynnwys camau gweithredu a mesurau perfformiad pellach a gaiff eu cysylltu â'r trefniadau cynllunio busnes corfforaethol a bydd yr wybodaeth yma ar gael ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Yn ychwanegol, byddid yn gwneud gwaith pellach i gyflwyno'r mesurau a gynhwysir yn yr adroddiad fel y medrir dynodi'r system graddio 'Brag' yn glir.

### ***% o Bresenoldeb Aelodau mewn Pwyllgorau Craffu Ffurfiol - Chwarteri 1 a 2***

Hysbyswyd y Pwyllgor, er bod tueddiad ar i waered yn ystod Chwarter 1 yn nhermau presenoldeb Aelodau, bod hyn yn cyfeirio at un cylch cyfarfod yn unig h.y. un mis (Mehefin 2017) oherwydd y cyfnod cyn-etholiad. Mae Chwarter 2 yn cynnwys y cyfnod Gorffennaf i Fedi 2017 ac yn nhermau canran yr Aelodau sy'n mynychu'r pwyllgorau craffu bu cynnydd o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mewn ymateb i sylw, nodwyd os oedd Aelodau yn cael anhawster yn mynychu cyfarfodydd ar adeg neilltuol, y dylid trafod gyda Chadeirydd y Pwyllgor perthnasol. Nodwyd fod pob Pwyllgor wedi cytuno ar amser dechrau'r cyfarfodydd ar ddechrau'r cylch.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 38 yr adroddiad cynnydd a dywedodd bod presenoldeb y Cydbwyllgorau Craffu yn is

na'r prif Bwyllgorau Craffu a dywedodd y gallai fod yn werth canfod y rheswm/rhesymau am y lefelau presenoldeb isel yma.

### ***Nifer o Argymhellion a Ddiwygiwyd gan Craffu***

Cyfeiriodd Aelod at nifer yr argymhellion a ddiwygiwyd gan Craffu (5 yn ystod Chwarter 2) a mynegodd ei bryder fod nifer o eitemau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu a gadeiriai ar gyfer dibenion 'monitro'. Felly, teimlai y byddai'r argymhellion i'r Pwyllgor Gweithredol yn gymesur.

Cadarnhaodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democrataidd) bod nifer o Bwyllgorau Craffu yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gweithredol lle'n berthnasol, cam cadarnhaol ymlaen. Mae blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu yn cynnwys amrywiaeth o eitemau ar gyfer dibenion cyn-polisi a monitro.

PENDERFYNWYD argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef argymell yr wybodaeth yn yr Adroddiad Perfformiad Trefniadau Democrataidd ar gyfer cymeradwyaeth.

## **6. TREFNIADAU CYMORTH AR GYFER AELODAU AR GYRFF ALLANOL**

Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democrataidd).

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cyngor blaenorol wedi gofyn am i drefniadau gael eu rhoi ar waith i gefnogi Aelodau ar gyrff allanol ac y dylid sefydlu dulliau i Aelodau roi gwybodaeth ac adborth perthnasol mewn fformat strwythuredig.

Yn eu cyfarfod ar 4 Hydref 2016 roedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cytuno derbyn yr adroddiad ac argymell i'r Cyngor gymeradwyo Opsiwn 1. Fodd bynnag, gohiriwyd y penderfyniad i'r Cyngor newydd oherwydd yr etholiad lleol arfaethedig.

Felly gofynnwyd i Aelodau ystyried y trefniadau cymorth a amlinellir ym mharagraff 6.1 yr adroddiad.

Croesawodd Aelod yr adolygiad o'r rhestr o gyrff allanol. Fodd bynnag, mynegodd bryder iddo gael ei benodi i nifer o gyrff er enghraifft, y Fforwm Derbyn, ond nad oedd yn derbyn cofnodion y cyfarfodydd hyn.

Dyweddodd yr Uwch Swyddog Cymorth Busnes nad oedd y Fforwm Derbyn yn cael ei ddsbarthu'n dechnegol fel 'corff allanol' o fewn y llyfryn aelodaeth a'i fod yn cael ei ddsbarthu fel 'cyfarfod arbennig/ad hoc'. Fodd bynnag, dywedodd y swyddog y byddai'n ystyried mater y dulliau adrodd ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

PENDERFYNWYD argymell yn unol â hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democrataidd), beth bynnag y rôl y penodwyd iddi o fewn y Cyngor, bod Aelodau wedi gofyn am gyflwyno trefniadau cefnogaeth fel bod cyfle ar gael i adborthi negeseuon allweddol o'r corff allanol y cawsant eu penodi iddo.

Yn ychwanegol, cadarnhaodd y swyddog fod y Tîm Gwasanaethau Democrataidd wedi dechrau casglu gwybodaeth am rôl a chylch gorchwyl yr Aelod a benodwyd i sefydliad allanol neilltuol.

Dyweddodd Aelod arall y byddai'r trefniadau cymorth ac adborth hyn yn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor nad oedd erioed wedi eu derbyn o'r blaen ac y byddai'n rhoi llais i Aelodau a benodwyd. Felly cynigiodd gymeradwyo Opsiwn 1. Eiliwyd y cynnig.

PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:-

- Cytuno ar y trefniadau newydd ar gyfer cefnogaeth ac adborth:-

	<p><b>Trefniadau cefnogaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal cyfarfod byr ymlaen llaw rhwng yr Aelod(au) a'r swyddog arweiniol perthnasol i drafod yr agenda ac unrhyw bwyntiau o ddiddordeb neilltuol.</li> <li>• Aelod(au) yn mynychu'r cyfarfod.</li> <li>• Cynnal ôl-gyfarfod byr rhwng yr Aelod(au) a'r swyddog arweiniol i roi ymateb.</li> </ul> <p><b>Trefniadau adborth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eitem agenda i'w hychwanegu at agenda'r Cyngor yn chwarterol ar gyfer cyfathrebu/adborth gan Aelodau ar gyrf allanol. Cynhyrchwyd templed i Aelodau ei lenwi ar gyfer rhannu'r adborth.</li> </ul> <p><b>Adolygiad o benodiadau cyfredol i gyrf allanol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid cynnal adolygiad o'r cyrf allanol i resymoli nifer yr apwyntiadau cyfredol. Dylid cwblhau hyn cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Mai 2018.</li> </ul>	
7.	<p><b><u>GWEITHDREFNAU ARFAETHEDIG AR GYFER FFRAMWAITH MENTORA AELODAU ETHOLEDIG</u></b></p> <p>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democrataidd).</p> <p>Oherwydd camgymeriad technegol, nodwyd fod Atodiad 1 oedd yn cynnwys fframwaith mentora a chanllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac amlinelliad o gontract mentora wedi ei adael allan o'r agenda. Fodd bynnag, caiff y mater hwn ei unioni pan gyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor Llawn ei ystyried.</p> <p>Hysbyswyd aelodau fod y Cyngor blaenorol wedi cymeradwyo mabwysiadu fframwaith ar gyfer mentora aelodau cyn yr etholiad lleol ym mis Mai. Fodd bynnag, teimlid fod nawr yr amser addas i ailystyried y fframwaith mentora. Roedd dau reswm am hyn:-</p> <p>➤ cymeradwyo'r ymrwymiad a sicrhau fod Aelodau</p>	

newydd a hefyd aelodau yn dychwelyd yn cael y lefel briodol o gefnogaeth ac arweiniad i gyflawni eu dyletswyddau, ac

- ers cytuno ar yr adroddiad gwreiddiol ym mis Hydref 2015 dim ond hanner y cohort gwreiddiol o fentoriaid a dderbyniodd yr hyfforddiant oedd yn gwasanaethu fel Cyngorwyr ar hyn o bryd.

Os caiff ei gymeradwyo, bydd y fframwaith arfaethedig yn cael ei yrru gan ymrwymiad, ymgyfraniad, profiad ac arbenigedd Aelodau - mater i Aelodau fyddai trefnu a negodi eu patrymau eu hunain o fentora. Dylid anfon datganiadau diddordeb ar gyfer yr Aelodau hynny a hoffai ddod yn fentor at y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Pe cymeradwyir y fframwaith, cyflwynir yr hyfforddiant ar gyfer mentoriaid yn fewnol gan swyddogion.

Awgrymodd Aelod y gallai cysgodi fod yn rhan o'r fframwaith er enghraifft rhywun a fentorir yn mynychu Pwyllgor Craffu penodol yn cysgodi eu mentor a benodir i'r Pwyllgor hwnnw.

Dyweddodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democrataidd) mai cwmpas yr adroddiad oedd cynnig fframwaith mentora ac er y gallai sgiliau arsylwi fod yn werthfawr, roedd tu allan i gwmpas yr adroddiad i roi sylwadau ar gais a phresenoldeb Aelodau na chafodd eu penodi gan y Cyngor i bwyllgorau penodol.

Parhaodd yr Aelod drwy fynegi ei bryder mai ychydig o gyfleoedd fyddai gan Aelodau'r Grŵp Lleiafrifol i gael eu cysgodi a dywedodd os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn croesawu sylwedyddion, na ddylai hyn fod yn rhwystr i'r broses mentora.

Cynigiodd y Cadeirydd dderbyn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:-

- Bod y Cyngor newydd yn llawn gymeradwyo'r fframwaith ar gyfer mentora Aelodau yn seiliedig ar

ganllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn ymateb i adborth blaenorol gan Aelodau ac adeiladu ar y trefniadau anffurfiol presennol. Caiff hyfforddiant ar gyfer mentoriaid ei gyflwyno'n fewnol gan swyddogion.

- Dylid anfon datganiadau diddordeb ar gyfer yr Aelodau hynny a hoffai ddod yn fentor i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**8. DRAFFT ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRP) CYMRU 2018/19 2018/19**

Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Cyllid.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, esboniodd Pennaeth Gwsanaethau Ariannol yn dilyn ymweliadau i bob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru, fod yr IRP wedi cyhoeddi ei ddrafft adroddiad yng nghyswllt cydnabyddiaeth ariannol Aelodau ar gyfer 2018/19.

Bydd y cyfnod ymgynghori yng nghyswllt penderfyniadau arfaethedig y Panel yn dod i ben ar 29 Tachwedd 2017 a rhagwelir y derbynir yr adroddiad terfynol yn ystod mis Chwefror 2018. Byddai'r Panel yn ystyried unrhyw adborth a gafwyd rhwng misoedd Rhagfyr 2017 i Chwefror 2018.

Soniwyd yn y prif bwyntiau perthnasol a'r newidiadau arfaethedig oedd yn cyfeirio at Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent: -

- **Cyflogau Sylfaenol ac Uwch** – byddai cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau prif gynghorau yn codi gan £200 y flwyddyn h.y. o £13,400 i £13,600 yn weithredol o fis Ebrill 2018.
- **Aelodau Gweithredol a Chadeiryddion Pwyllgorau** – fel canlyniad i farn gref a fynegwyd yn ystod yr ymweliadau, roedd y Panel wedi cydnabod y gefnogaeth lethol ar gyfer i'w benderfyniad fod yn rhagnodol a chynigiodd ddileu'r trefniadau dwy-haen ar gyfer Aelodau Gweithredol a Chadeiryddion



Pwyllgorau.

➤ **Trefniadau Rhannu Swydd** – mae rhai Cynghorau wedi codi posibilrwydd gweithredu rhai swyddi cyflog uwch ar drefniant 'rhannu swydd'. Roedd y Panel yn cefnogi'r egwyddor yma ac wedi penderfynu:-

- y dylai talu 50% o'r cyflog priodol i Aelodau'r Pwyllgor Gweithredol; ac
- ni fedrid cael mwy na'r uchafswm statudol o Lwfansau Cyfrifoldeb Uwch - yn achos Blaenau Gwent y nifer hwn oedd 17. Yn ychwanegol, y nifer o bobl sy'n derbyn cyflog uwch ac nid y nifer o uwch swyddi cyflog fyddai'n cyfrif at y cap.

➤ **Absenoldeb Salwch ar gyfer Deiliaid Cyflog Uwch** – cynigiwyd newid y fframwaith i ddarparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor uwch ddeiliaid cyflog.

- gallai deiliad uwch ddaliwr cyflog ar salwch hirdymor barhau i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os yw'r awdurdod yn penderfynu felly; a
- cynigiwyd uchafswm hyd absenoldeb salwch yn 26 wythnos neu pan fo tymor yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben.

Cafodd aelodau gyfle wedyn i roi sylwadau/codi cwestiynau yng nghyswllt yr adroddiad.

**Cefnogi Gwaith Aelodau Etholedig** – cyfeiriodd Aelod at y gefnogaeth a roddwyd ac yn neilltuol y trefniadau Wi-Fi a mynediad o fewn adeilad y Ganolfan Ddinesig a dywedodd yr hyderir y rhoddir ystyriaeth i hyn.

Cadarnhaodd yr Aelod Gweithredol - Gwasanaethau Corfforaethol y cyflwynir adroddiad yn cyfeirio at y Cynllun TGCh ar gyfer Aelodau i'w ystyried gan y Cyngor Llawn ar 7 Rhagfyr 2017.

**Adborth IRP** - cefnogodd yr Aelod yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, serch fod bob amser bosibilrwydd i Aelodau

ystyried y penderfyniadau yn unigol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol oherwydd bod y cyfnod ymgynghori yng nghyswllt y penderfyniadau arfaethedig yn dod i ben ar 29 Tachwedd 2017 a'r amserlen ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor llawn (7 Rhagfyr 2017), ni fyddid yn medru symud ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r Cyngor llawn eu hystyried. Fodd bynnag, caiff unrhyw adborth a dderbynnir gan y Pwyllgor ei gyflwyno i'r IRP ac os oedd gan Aelodau unrhyw broblemau neu farn unigol hawl i roi sylwadau'n uniongyrchol i'r IRP.

Cadarnhaodd y swyddog drwy ddweud fod gan y Cyngor ddyletswydd i gydymffurfio gyda phenderfyniadau'r IRP. Fodd bynnag byddai'n fater ac ar ddisgresiwn gwirfoddol yr Aelodau unigol os dewisant dderbyn neu wrthod y cynnydd mewn lwfansau.

Cynigiwyd ac eiliwyd derbyn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd.

Mewn pleidlais unfrydol,

PENDERFYNWYD argymell hysbysu Panel Annibynnol Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru y derbyniwyd drafft adroddiad y Panel ar gyfer 2018/19 yn ei gyfanrwydd.

**9. ADOLYGIAD 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU - CYNIGION DIWYGIEDIG**

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.

Hysbyswyd y Pwyllgor y cyflwynwyd yr adroddiad i Aelodau ystyried cynigion diwygiedig y Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru yng nghyswllt adolygiad o etholaethau Seneddol yng Nghymru sy'n rhaid ei gwblhau erbyn 1 Hydref 2018.

Dywedodd y Rheolwr Cymorth Corfforaethol fod Deddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd gan y System Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 wedi sefydlu cwota etholiadol yn y Deyrnas Unedig a gostwng nifer yr

etholaethau seneddol yn y Deyrnas Unedig o 650 i 600. Gostyngid nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru o 40 i 29.

Mae'r Ddeddf yn gosod y dylai pob etholaeth gael etholaethau o faint fras debyg yn seiliedig ar gwota etholiadol. Roedd y cyfnod ymgynghori dechreuol, oedd yn cynnwys gwrandawiadau cyhoeddus, wedi dod i ben a chafodd yr holl sylwadau eu hystyried.

Mae wardiau etholiadol gogleddol etholaeth bresennol Islwyn yn cael eu cysylltu gyda Blaenau Gwent gyda'r A467 a'r A4048 ac yn barhad naturiol o'r cymoedd yn eu hardal. Felly, mae'r argymhelliad ar gyfer etholaeth ddiwygiedig Blaenau Gwent yn cynnwys Argoed, Crymlyn, Coed Duon, Cefn Fforest, Pengam, Penmaen a Threcelyn.

Byddai'r etholaeth yn cynnwys 75,664 o etholwyr oedd 1.2% yn uwch na'r cwota etholiadol o 74,769.

Nodwyd fod adroddiad a mapiau'r Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau ar gael i'w harchwilio yn y Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy.

Daeth y Rheolwr Cymorth Corfforaethol i ben drwy ddweud y byddai Comisiwn Ffiniau Cymru yn rhoi adroddiad ar ei gynigion i'r Senedd yn ystod hydref 2018.

Gadawodd y Cynghorydd L. Elias y cyfarfod ar y pwynt hwn.

### ***Goblygiadau Ariannol***

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Cymorth Corfforaethol na fyddai unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r awdurdod yn gysylltiedig â'r cynnydd ym maint yr etholaeth Seneddol. Fodd bynnag, byddai goblygiadau ariannol i Swyddfa'r Cabinet oedd yn cyllido'r etholiadau hyn.

Yn nhermau trefniadau staffio, weithiau byddai swyddogion gweinyddol etholiadol o etholaethau eraill yn cynorthwyo gyda'r gwaith ychwanegol fel rhan o'r broses etholiad ond

unwaith eto Swyddfa'r Cabinet ac nid yr awdurdod fyddai'n talu am y swyddogion hyn.

Dilynodd trafodaeth fer a

PHENDERFYNWYD argymell derbyn yr adroddiad a chreu etholaeth sirol o:-

- etholaeth bresennol Blaenau Gwent yn ei chyfanrwydd (49,661 o etholwyr); ynghyd â
- y wardiau etholiadol o fewn Etholaeth Seneddol bresennol Islwyn sef Argoed (1,910 etholwr), Coed Duon (5,947 etholwr), Cefn Fforest (2,765 etholwr), Crymlyn (4,195 etholwr), Trecelyn (4,611 etholwr), Pengam (2,571 etholwr) a Penmaen (4,004 etholwr).

Byddai'r etholaeth wedyn yn cynnwys 75,664 o etholwyr, 1.2% yn uwch na'r cwota etholiadol o 74,769.

**10. ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL YM MLAENAU GWENT**

Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.

Dywedodd y Rheolwr Cymorth Corfforaethol y byddai adolygiad o'r trefniadau etholiadol ym Mlaenau Gwent yn dechrau yn Ionawr 2018. Cynhelir yr adolygiad hwn gan Gomisiwn Democratiaeth Lleol a Ffiniau Cymru ac fe'i cyflwynir i Lywodraeth Cymru yn barod ar gyfer etholiadau lleol 2022.

Cyn cynnal yr adolygiad, mae angen i'r Comisiwn ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol ar y weithdrefn a'r dull a fwriedir ar gyfer yr adolygiad ac, yn neilltuol, sut mae'n cynnig penderfynu ar nifer briodol yr aelodau ar gyfer unrhyw brif gyngor. Felly byddai cynrychiolwyr y Comisiwn Democratiaeth Lleol a Ffiniau yn cwrdd gydag uwch swyddogion ac arweinwyr y grwpiau gwleidyddol a rhoddir cyflwyniad i'r Cyngor llawn a Chynghorau Tref a Chymuned cyn gynted ag sydd modd.

Mae'r Comisiwn wedi gwneud peth gwaith dechreuol ar yr adolygiad a gan roi ystyriaeth i faterion megis natur drefol a dwysedd poblogaeth y Fwrdeistref a llawer o ffactorau eraill, byddai nifer arfaethedig Cyngorwyr ym Mlaenau Gwent yn gostwng o 42 i 38.

Daeth y Rheolwr Cymorth Corfforaethol i ben drwy ddweud fod gan y Cyngor gyfle i hybu'r adolygiad ac awgrymodd opsiynau i gael eu hystyried ac argymhellodd fod Aelodau'n edrych ar y ddogfen 'Adolygiadau Etholiadol: Polisi ac Ymarfer' sydd ar gael ar lein.

Awgrymodd Aelod y dylid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynorthwyo ac awgrymodd opsiynau pellach i gael eu hystyried gan y Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau.

Dilynodd trafodaeth fer am gyfansoddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen pan awgrymodd y Pennaeth Polisi a Pherfformiad (Pennaeth dynodedig Gwasanaethau Democratiaidd) yn y lle cyntaf fod y Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd a'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnal cyfarfod cychwynnol i gwmpasu'r cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac y gellid wedyn benderfynu ar aelodaeth y Grŵp yn seiliedig ar gwmpas y gwaith.

Rhoddodd Aelod enghreifftiau o le cafodd ffiniau wardiau eu hailddiffinio'n flaenorol a'r effaith a gafodd hynny ar etholwyr. Er enghraifft, roedd rhai pobl wedi trosglwyddo o ward Cymunedau'n Gyntaf lle'r oeddent wedi medru cael mynediad i gyllid i ward nad oedd wedi ei chategoreiddio fel ardal Cymunedau'n Gyntaf. Felly roedd angen cynnal asesiad llawn o effaith unrhyw gynigion i sicrhau nad oedd penderfyniadau'n effeithio ar fywoliaeth preswylwyr.

Dilynodd trafodaeth pan gytunwyd y byddair Is-gadeirydd yn cwrdd gyda'r Rheolwr Cymorth Corfforaethol i gwmpasu'r adolygiad a chylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac unwaith ei fod wedi ei gwblhau, gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd ei ystyried. Nodwyd y byddai'r Cyngor llawn yn ystyried goblygiadau ehangach yr adolygiad.

PENDERFYNWYD argymell yn unol â hynny.

Mewn pleidlais unfrydol,

PENDERFYNWYD YMHELLACH i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gwahodd y Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru i roi cyflwyniad i'r Cyngor llawn.

Byddai'r cyflwyniad hwn yn nodi arferion a gweithdrefnau cyffredinol yr adolygiad a gynhelir a rhoi cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau.

Cyn diwedd y cyfarfod, gofynnodd Aelod am i'r Llwybrau Adrodd' ar gyfer Eitemau 9 a 10 gael eu cwblhau'n llawn cyn cyflwyno'r adroddiadau i'r Cyngor.